22.06.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg Press Release**

# "Dim ond dechrau'r stori oedd y beichiogi" taith pennaeth BBC Radio 1 ar ddod yn riant

Ers i'r rhaglen ddogfen, **DRYCH: Ti, fi a'r fam fenthyg**, ddarlledu ym mis Chwefror 2021, mae bywyd pennaeth gorsaf BBC Radio 1, Aled Haydn Jones, wedi newid yn gyfan gwbl.

Bryd hynny, roedd Aled a'i bartner Emile yn ceisio cyflawni breuddwyd o fod yn rhieni, gyda chymorth yr asiantaeth Surrogacy UK. Ar ôl profi sawl siomedigaeth roedd y cwpwl bron a digalonni. Ond prin flwyddyn a hanner wedyn mae pethau wedi newid am y gorau.

Bydd cyfle i ddarganfod y datblygiadau diweddaraf mewn rhaglen ddogfen ddilynol, **DRYCH: Ti, fi a'r babi**, fydd ar S4C nos Fawrth (28 Mehefin) am 9.00.

"Ni wedi bod yn trio am fabi gyda'n surrogate, Dawn, am dair blynedd hir" meddai Aled, sy'n wreiddiol o Aberystwyth ond bellach yn byw yn Llundain.

"Mae'r broses IVF wedi bod yn un dorcalonnus, llawn troeon trwstan emosiynol ac yn gwneud i ni gwestiynu popeth; a gofyn, ydy ni byth yn mynd i gael teulu'n hunain?

"Wel ma newyddion da fi, ni wedi bod yn lwcus a ma Dawn yn feichiog. *Nappies*, dim cysgu, sgrechen - ni yn barod."

Ac fel yn y rhaglen gyntaf, mae pob carreg filltir y daith yn cael ei ddogfennu; y foment mae Aled ac Emile yn darganfod fod Dawn yn feichiog, y scan cyntaf, yr eiliad hudol o glywed curiad calon y babi am y tro cyntaf a hyd yn oed yr enedigaeth.

Ymysg y cyfan, maent yn penderfynu priodi - ac mae cael pawb sy'n bwysig yn ei fywyd mewn un lle yn gam pwysig, a hanfodol, i Aled er mwyn iddo deimlo ei fod yn cael ei dderbyn.

"Ar ôl 17 blwyddyn gyda'n gilydd mae Emile a fi wedi penderfynu fod hi'n amser priodi. Ni byth rili wedi dathlu'n perthynas. Nawr bod ni yma 17 mlwyddyn ar ôl cwrdd, rwy'n credu fod hi'n amser treulio diwrnod i ddathlu hwnna.

"Dyma'r tro cyntaf bydd pawb yn yr un ystafell, ac mae'n deimlad anodd i gael. Roedd rhaid i fi symud i ddinas fawr i ffeindio grŵp o bobol sy'n derbyn fi am bwy ydw i, felly mae tynnu teulu a phobol o Aberystwyth, micsio nhw hefo Dawn a'n teulu newydd a ffrindiau Llundain i gyd mewn un ystafell yn mynd i fod yn gam pwysig. Bydd yn helpu fi i fod yn gyfforddus hefo pwy ydw i am weddill fy mywyd."

Fel y daith flaenorol, tydi pethau ddim yn fêl i gyd i'r pâr priod newydd. Yng ngeiriau Aled: "Dim ond dechrau'r stori oedd y beichiogi".

Pan ddaw galwad brys gan Dawn yn dweud fod y babi ar y ffordd, chwe wythnos yn gynnar, mae'n rhaid rhuthro o Lundain i Swydd Derby. A fydd Aled ac Emile yn cyrraedd yr ysbyty mewn pryd? A fydd y babi yn iawn? A fydd cyngor rhieni eraill Surrogacy UK yn helpu sicrhau nad oes anawsterau diangen yn codi, oherwydd eu sefyllfa? A fydd Aled ac Emile yn cael croesawu mab neu ferch i'w cartref?

O fod yn fachgen sy'n dyheu i gael ei dderbyn am bwy ydyw, i fod yn bennaeth ar un o orsafoedd radio mwyaf y byd, i Bridezilla, yna i riant balch, ymunwch ag Aled ar ei daith ddirdynnol nos Fawrth am 9.00.

**DRYCH: Ti, fi a'r babi**
**Nos Fawrth 28 Mehefin, 9.00**
**Isdeitlau Saesneg**
**Ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Wildflame ar gyfer S4C**

22.06.2022

Elin Lenny
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
0330 588 0506

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# "Pregnancy was just the beginning of the story" BBC Radio 1 boss' path to parenthood

Since the documentary, **DRYCH: Ti, Fi a'r Fam Fenthyg** (You, me and the surrogate), aired in February 2021 life has changed completely for the head of BBC Radio 1, Aled Haydn Jones.

Back then, Aled and his partner Emile were trying to become parents with the help of Surrogacy UK. Unfortunately, the couple suffered a string of disappointments and were left deflated. Fast forward a year and a half and things have changed for the better.

A follow up documentary on S4C, **DRYCH: Ti, Fi a'r Babi** (You, me and the baby) reveals all that has happened in the past eighteen months, and will be shown first on Tuesday (June 28) at 9.00.

"We've been trying for a baby with our surrogate, Dawn, for three long years," said Aled, who is originally from Aberystwyth but now lives in London.

"The IVF process was heartbreaking, full of emotional turmoil - making us question everything. We were left asking, are we ever going to have a family of our own?

"Well there's good news at last, we've been lucky and Dawn is pregnant. Nappies, no sleep, screaming – we are ready."

As we saw in the first documentary, every milestone of the journey is documented; the moment Aled and Emile discover Dawn is pregnant, the first scan, the magical moment of hearing the baby's heartbeat for the first time as well as the birth.

In the middle of it all, Aled and Emile decide to get married as having all of the people he cares for in one place is an important, and essential, step for Aled so he can finally feel accepted.

"After 17 years together Emile and I have decided it's time to get married. We've never celebrated our relationship. Now that we're still here 17 years after meeting, I think it's time to spend a day celebrating it.

"This is the first time everyone will be in the same room. Emotionally, that's tough. I had to move to a big city to find a group of people who accept me for who I am. So, pulling family and friends from Aberystwyth, mixing them with Dawn and our new family as well as our London friends all in one room is going to be an important step. It will help me to feel comfortable with who I am for the rest of my life."

After a bumpy ride throughout the IVF process, things aren't easy for the newlyweds either. In Aled's words: "The pregnancy was just the beginning of the story".

When Dawn places an emergency call to the couple stating the baby is on the way, six weeks early, they have to rush from London to Derbyshire. Will Aled and Emile arrive at the hospital on time? Will the baby be OK? Will advice from Surrogacy UK's other parents help ensure they don’t experience unnecessary difficulties because of their situation? Will Aled and Emile finally be able to welcome a son or daughter to their home?

From being a young man who craves to be accepted for who he is, to head of one of the world's largest radio stations, to Bridezilla, then a proud parent - join Aled on his personal and emotional journey on Tuesday evening at 9.00.

**DRYCH: Ti, fi a’r babi**
**Tuesday 28 June, 9.00**
**English subtitles available**
**On S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms**
**A Wildflame production for S4C**